

At Weinidogion Cymru,

Dyletswyddau Adrodd o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau a bennir yn adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer 2019-20.

Y camau a gymerwyd i hyrwyddo teithiau llesol	- Dal ati ag ymgyrch i hyrwyddo Teithio Llesol a chodi ymwybyddiaeth yn ei gylch; - Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o Deithio Llesol ar gyfryngau cymdeithasol; - Addysgu a hyfforddi plant mewn ysgolion fel rhan o gynlluniau cenedlaethol <i>Kerbcraft / Bike Safe</i>; hyfforddiant beicio; Cynllun Gyrwyr Hŷn ar gyfer cerddwyr a gyrwyr. - Rhoi cyflwyniadau i grwpiau fel Cymdeithas y Cerddwyr, Grŵp Mynediad i Bobl Anabl Conwy, <i>Cycling UK</i> a Sustrans, yn ogystal â rhai eraill drwy seminarau WeITAG. - Cwrdd â datblygwyr lleol, ymgynghorwyr a chontractwyr i'w hysbysu o'r dyletswyddau o ran Teithio Llesol, y cyfrifoldebau, yr amcanion a'r gofynion; - Penodi Sustrans i weithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan gynnal gweithdai mewn ysgolion a cholegau lleol i godi ymwybyddiaeth o Deithio Llesol; - Ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ddarparu gwybodaeth i drigolion a busnesau lleol lle mae bwriad i ddatblygu llwybrau newydd, i roi gwybod am ddyluniad y llwybrau a'r Ddeddf Teithio Llesol yn gyffredinol; - Gofynnir am ymatebion i bob cynllun gorffenedig gan y cyhoedd / busnesau cyfagos; Wrth ymgysylltu gallwn hyrwyddo ac esbonio'r Ddeddf Teithio Llesol a'r llwybrau. - Mae'r Cyngor yn cynnal loceri, cyfleusterau cawodydd, ystafelloedd sychu a manau parcio beiciau â tho i annog staff i gael yr opsiwn i deithio i'w gwaith mewn modd di-fodur o fewn ei swyddfeydd.
---	---

Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig	- Mae Adain Traffig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn meithrin cyswllt yn uniongyrchol â pherchnogion tir er mwyn sicrhau llwybrau newydd yn y Sir yn y dyfodol; - Mae'r gwasanaeth Cynllunio Strategol, ar y cyd â'r Adain Traffig, yn adolygu datblygiadau mawr yn y Sir i sicrhau fod llwybrau Teithio Llesol yn cael eu hymgorffori yn gynnar mewn cynlluniau; - Mae'r Adain Traffig yn darparu canllawiau dylunio i adrannau mewnol amrywiol lle gallai gwaith arfaethedig effeithio ar lwybrau sydd ar y Map Llwybrau Presennol neu'r Map Rhwydwaith Integredig, gan gynnwys: Perygl Llifogydd, Hawliau Tramwy, Cynnal a Chadw Priffyrdd. - Sicrhau cyfleusterau Teithio Llesol drwy'r broses Rheoli Datblygu drwy Gytundebau Adran 106 ac Adran 278. - Mae gwaith ar y cyd yn parhau drwy weithgor traws-sirol rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych a <i>Network Rail</i> i ddatblygu llwybr cerdded/beicio newydd dros Afon Clwyd (IKBC1).
Costau a gododd ar gyfer llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiedig, a gwella llwybrau teithio llesol a chyfleusterau, yn y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf	- Llwybr Seiclo Cenedlaethol 5 – Rhos Point £844,588 - gwaith ail-alinio priffyrdd, lledu llwybr troed, llwybr troed newydd a rennir, llwybr beicio oddi ar y ffordd, gwelliannau i gyfleusterau croesi i gerddwyr, gwelliannau i amddiffynfeydd môr. - Ysgol Glanwydden ac Ysgol y Creuddyn £262,625 – Cam 2 o'r cynllun i ddarparu llwybr oddi ar y ffordd i feicwyr a cherddwyr i gysylltu'r ysgolion â chanol pentref Bae Penrhyn ac ardaloedd preswyl cyfagos. - Conwy i Barc Caer Seion £728,530 - Llwybr cerdded / beicio a rennir, nodweddion gostegu traffig, lledu llwybr troed, gwelliannau i oleuadau stryd, caffael tir). - Promenâd Hen Golwyn £1,688,500 gwaith i amddiffynfeydd y morglawdd, gwelliannau i'r maes parcio, gwelliannau i lwybr cerdded / beicio a chysylltiadau â'r llwybr NCN 5 presennol. Cynllun parhaus gyda rhagor o waith yn 2020/21. - Cysylltiad Beicwyr Ffordd yr Ysbyty £301,734 llwybr a rennir i gerddwyr / beicwyr oddi ar y ffordd, gwelliannau i fannau croesi i gerddwyr.

Yn ogystal â'r uchod (dewisol):

Gwariant dangosol ar lwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiedig, a gwella llwybrau teithio llesol a chyfleusterau, wedi'i ariannu'n llwyr neu'n rhannol gan drydydd parti	- Gwelliannau Tagfeydd Llandudno Cynllun £700,000 wedi'i ariannu gan gyfraniadau a106, Cronfa Trafnidiaeth Lleol a £80,000 Cronfa Teithio Llesol ar gyfer gwelliannau i lwybrau troed, gwaith ar groesfan twcan a chroesfan heb ei reoli. I'w gwblhau erbyn 2020/21. - Conway Road / Ffordd Newydd, Cyffordd Llandudno Llwybrau a rennir, rampiau newydd ar y tanffordd a chroesfannau heb eu rheoli wedi'u hariannu gan gytundeb a278 ar gyfer datblygiad siop manwerthu bwyd newydd. Gwelliannau teithio llesol wedi'u cynnwys o fewn y cynllun gwella priffyrdd ehangach – nid yw'r costau ar wahân ar gael.
Hyd y llwybrau newydd: - Cerdded - Beicio - Cyd-ddefnyddio	- Conway Road / Ffordd Newydd, Cyffordd Llandudno 140m cyd-ddefnyddio - Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 - Rhos Point 450m cyd-ddefnyddio - Conwy i Barc Caer Seion 15m cerdded / 270m beicio / 1372 cyd-ddefnyddio - Cysylltiad i Seiclwyr ar Ffordd yr Ysbyty 20m cerdded / 671m cyd-ddefnyddio - Ysgol Glanwydden ac Ysgol y Creuddyn Cam 2 400m cyd-ddefnyddio
Hyd y llwybrau sydd wedi'u gwella: - Cerdded - Beicio - Cyd-ddefnyddio	- Gwelliannau Tagfeydd Llandudno 165m cerdded - Promenâd Hen Golwyn 130m cyd-ddefnyddio
Cyfleusterau teithio llesol newydd a rhai sydd wedi'u gwella	- Gorsaf atgyweirio beics a seddi newydd ar Bromenâd Hen Golwyn; - Croesfan twcan newydd yn Mostyn Broadway, Llandudno; - Darparu rampiau yng nghroesfan tanffordd Conway Road, Cyffordd Llandudno i gysylltu â'r siop manwerthu bwyd newydd.

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Dim.

Cadarnhaf y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar-lein a'i ddarparu ar bapur ar gais, yn unol â'r Canllawiau Cyflawni statudol.

Llofnod y Prif Weithredwr:



Enw'r Prif Weithredwr:

IWAN DAVIES